Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

2. Rheoli eich sefydliad

2.13.1 Ble i gael cymorth ac arweiniad i weithredu ar newid yn yr hinsawdd

Cyflwyniad

Mae'r daflen wybodaeth hon wedi'i bwriadu ar gyfer mudiadau a grwpiau sy'n gweithio yng Nghymru ac sydd am gymryd cam cyntaf tuag at arferion gweithio cynaliadwy ac sydd am ganfod mwy o wybodaeth am y newid yn yr hinsawdd a sut y gallant hwy wneud cyfraniad cadarnhaol tuag at fynd i'r afael ag ef.

Y nod gyda'r daflen wybodaeth hon yw rhoi crynodeb o'r mudiadau a'r asiantaethau sy'n darparu cymorth, cyngor, gwybodaeth ac, mewn rhai achosion, cyllid i fudiadau yn y trydydd sector er mwyn eu helpu i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd – nid yw'r arweiniad hwn yn un cynhwysfawr ar unrhyw gyfrif ac mae llawer mwy o fudiadau i'w cael sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd drwy eu gwaith.

Bydd y daflen wybodaeth hon yn cael ei diweddaru'n gyson – rhowch wybod inni os ydych yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth arall berthnasol y gellid ei hychwanegu at yr arweiniad hwn drwy anfon neges e-bost i: policy@wcva.org.uk

Ffynonellau cymorth (yn nhrefn yr wyddor)

Amgylchedd Cymru

Mae Amgylchedd Cymru'n rhoi cymorth i weithredu gwirfoddol sy'n cyfrannu tuag at ddatblygu cynaliadwy drwy ddiogelu a gwella amgylchedd Cymru. Partneriaeth ydyw rhwng cyrff yn y sector gwirfoddol, a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Er 1992 mae wedi rhoi cymorth i fwy na 850 o brosiectau ledled Cymru i ddarparu amgylcheddau glanach, iachach a mwy amrywiol.

Mae'r Tîm Swyddogion Datblygu'n gweithio i roi cyngor a chymorth i grwpiau cymunedol a gwirfoddol. Neilltuir Swyddog Datblygu i bob prosiect sy'n cael cymorth gan Amgylchedd Cymru, ac mae'r Swyddog yn parhau i weithredu fel dolen gyswllt gyson.
Mae Amgylchedd Cymru hefyd yn gweithredu pum ffrwd grantiau i roi cymorth i fudiadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol sy'n ymgymryd â phrosiectau ymarferol sy'n hybu un neu fwy o'r amcanion canlynol:

- cyflawni gwelliannau cynaliadwy i amgylchedd Cymru drwy brosiectau ymarferol;
- cynyddu dealltwriaeth am ddatblygu cynaliadwy a'r amgylchedd drwy wasanaethau gwybodaeth, addysg ac ymgynghori;
- helpu i greu mentrau amgylcheddol newydd sydd hefyd yn galluogi cymunedau a chyrff gwirfoddol i gyfrannu tuag at eu hanghenion cymdeithasol ac economaidd;

- rhoi cymorth a hyfforddiant i staff a gwirfoddolwyr sy'n rhan o'r gweithgareddau hyn.

Mae Amgylchedd Cymru hefyd yn rhedeg y Cynllun Grantiau Cefnogi Byw'n Gynaliadwy, sydd â'r nod o sicrhau newidiadau hirdymor mewn ffordd o fyw a fydd yn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru a helpu mudiadau a chymunedau i addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd. Mae'r gronfa yn agored i fudiadau o'r sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector. Yr uchafswm grant sydd ar gael yw £35,000.

Ffôn: 029 2043 1727
info@environment-wales.org
www.environment-wales.org/home/128?setLanguage=2

Asiantaeth Ynni Hafren Gwy

Drwy weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, awdurdodau iechyd, asiantaethau'r llywodraeth, cyrff rhanbarthol, y sector preifat, ystod o asiantaethau gwirfoddol ac asiantaethau ynni eraill ar draws Ewrop, maent wedi datblygu portffolio o brosiectau a gwasanaethau ym maes effeithlonrwydd ynni, ynni adnewyddadwy a thrafnidiaeth gynaliadwy.

Eu nod yw helpu pawb yn y cymunedau maent yn eu gwasanaethu i fwynhau'r manteision y gall ynni ei gynnig heb leihau gallu cenedlaethau'r dyfodol i wneud yr un peth.

Mae Asiantaeth Ynni Hafren Gwy yn cynnig y gwasanaethau canlynol:

- Datblygu strategaeth, yn cynnwys ynni, cynhesrwydd fforddiadwy, a newid yn yr hinsawdd
- Rheoli a datblygu prosiect
- Hyfforddiant ar gyfer staff ac ymgynghorwyr proffesiynol
- Ymwybyddiaeth, cyngor a gwybodaeth
- Rhaglenni addysgol
- Ymchwil

Ffôn: 01982 551006
www.swea.co.uk/index.shtml

Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, ac mae hefyd yn rhan o gorff corfforaethol Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer Cymru a Lloegr.
Mae Asiantaeth yr Amgylchedd wrthi ar hyn o bryd yn datblygu arweiniad amgylcheddol ar gyfer partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf ledled Cymru. I gael gwybod mwy cysylltwch â'r Swyddog Polisi sy'n ymdrin â gwaith Cymunedau yn Gyntaf.

Ffôn: 08708 506 506
enquiries@environment-agency.gov.uk
www.environment-agency.gov.uk/cy/amdanomni/sefydliad/35675.aspx?

Awel Aman Tawe

Prosiect ynni cymunedol yw Awel Aman Tawe sy'n gweithio i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl ar frig Cymoedd Abertawe a'r Aman. Ei nod yw dod â thrydan glan, swyddi ac adfywiad i'r pentrefi ger Mynydd y Gwrhyd. Mae ganddo ganiatad cynllunio i adeiladu fferm wynt gymunedol dau dyrbin yn uchel ar y Gwrhyd, ased gwerth £6 miliwn a fydd yn dod ag ynni carbon isel a chontractau adeiladu i'r ardal, ynghyd â ffrwd incwm flynyddol o werthu trydan o ryw £200,000 a fydd yn helpu i ariannu prosiectau lleol.
Mae'n gweithio i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd ynni glân yn y frwydr yn erbyn y bygythiad o newid yn yr hinsawdd drwy raglen barhaus o wybodaeth, cyfathrebu ac ymgynghori a, yn fwy diweddar, drwy ystod arloesol o weithgareddau celfyddydol sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd sydd yn aml yn cyrraedd pobl ar lefel ddyfnach.

Ffôn:01639 830870
aat@awelamantawe.co.uk
www.awelamantawe.org.uk/

BTCV

Cafodd yr elusen ei sefydlu yn 1959, ac mae ganddi hanes llwyddiannus o wirfoddoli ym maes cadwraeth amgylcheddol ledled y DU ac ar draws y byd.

Gall gweithio gyda BTCV a'i gefnogi fod yn brofiad gwerth chweil i bartneriaid corfforaethol, y Llywodraeth, y Gronfa Loteri Fawr, awdurdodau lleol, asiantaethau'r llywodraeth fel *English Nature* a rhoddwyr unigol.

Ei genhadaeth yw creu dyfodol mwy cynaliadwy drwy ysbrydoli pobl a gwella lleoedd

Ffôn: 01302 388 883
information@btcv.org.uk
www2.btcv.org.uk/display/wales_communitynetworking

Business Link

Mae Business Link yn rhoi arweiniad sy'n berthnasol i fudiadau gwirfoddol a chymunedol ar ddatblygu polis au amgylcheddol, asesu a chyfathrebu perfformiad amgylcheddol eich mudiad, a chyfleoedd busnes carbon isel fel caffael cynaliadwy a darparu gwasanaethau.

www.businesslink.gov.uk/bdotg/action/home

Cadwch Gymru'n Daclus

Mae Cadwch Gymru'n Daclus yn gweithio i gadw Cymru'n brydferth, ac yn wlad y gall pawb ofalu amdani a'i mwynhau. Mae'n gweithio mewn partneriaeth agos ag awdurdodau lleol, ysgolion a grwpiau cymunedol i annog cyfranogiad a mewnbwn gan y cyhoedd. Ar hyn o bryd mae Cadwch Gymru'n Daclus yn rhedeg nifer o raglenni, o helpu cymunedau lleol i wella eu hardal, i addysgu plant am bwysigrwydd parchu'r amgylchedd. Mae'n mynd i'r afael â mwy na sbwriel a gwastraff: ei nod yw annog y cyhoedd i gymryd cyfrifoldeb am eu hamgylchedd drwy roi'r teclynau a'r addysg iddynt wneud hynny.

Ffôn: 02920 256767
south@keepwalestidy.org
www.keepwalestidy.org/index

Canolfan Cydweithredol Cymru

Mae Canolfan Cydweithredol Cymru yn helpu cwmnïau cydweithredol, mentrau cymdeithasol, grwpiau cymunedol a mudiadau gwirfoddol. Mae'n cynnig arweiniad i fudiadau newydd a rhai sy'n bodoli eisoes drwy ddarparu cymorth ymatebol, dibynadwy a hyblyg.

Caiff ei ariannu'n bennaf gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Llywodraeth Cymru, ac mae wedi ymrwymo i weithio gyda mudiadau a chymunedau i fynd i'r afael ag allgau cymdeithasol, digidol ac ariannol yng Nghymru. Maent yn helpu cymunedau i ddatblygu busnesau neu brosiectau sy'n gwerthfawrogi pobl a'r amgylchedd gymaint ag elw.

Ffôn: 0300 111 5050
info@walescooperative.org
www.walescooperative.org/

Canolfan Eco Cymru

Mae Canolfan Eco Cymru yn elusen gofrestredig ac yn fusnes dielw yn Nhrefdraeth, Sir Benfro, sy'n gweithio i hyrwyddo'r materion sy'n gysylltiedig â defnyddio ynni a'i effaith ar gynaliadwyedd a'r amgylchedd. Mae hyn yn cynnwys prosiectau sy'n canolbwyntio ar dlodi tanwydd, ynni adnewyddadwy ac addysg amgylcheddol. Gall ddarparu cyngor rhad ac am ddim a diduedd ynghylch ystod o faterion sy'n gysylltiedig ag ynni.

Ffôn: 01239 820235
www.ecocentre.org.uk/

Canolfan Ynni Cynaliadwy

Maent yn helpu pobl a mudiadau o'r sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i ateb y ddwy her o gostau ynni yn codi a newid yn yr hinsawdd. Mae eu gweledigaeth yn un o fyd lle mae cynaliadwyedd yn ail natur, mae allyriadau carbon wedi'u torri i lefelau diogel ac mae tlodi tanwydd wedi cael ei ddisodli gan gyfiawnder ynni. Eu cenhadaeth yw rhannu gwybodaeth a phrofiad ymarferol i rymuso pobl i newid y ffordd maent yn meddwl ac yn gweithredu ynghylch ynni.

Maent yn gwneud hyn drwy roi cyngor, rheoli prosiectau ynni arloesol, hyfforddi eraill i weithredu, a gwneud ymchwil a dadansoddi polisïau.

Ar unrhyw adeg mae ganddynt rhwng 50 a 60 o wahanol brosiectau sydd wedi'u hariannu ar wahân. Mae'r cyfan yn helpu pobl a chymunedau i ddiwallu anghenion gwirioneddol ar gyfer gwasanaethau ynni sy'n amgylcheddol gadarn a fforddiadwy.

Ffôn: 0117 934 140
info@cse.org.uk
www.cse.org.uk/pages

Co-Cymru

Mae Co-Cymru yn darparu cefnogaeth ymgynghorol a datblygu arbenigol i ystod o fudiadau a sectorau ym meysydd 'adfywio cyfannol' a 'buddsoddi cynaliadwy'. Gweledigaeth Co-Cymru yw helpu i greu cymdogaethau cynaliadwy, deniadol a chynhwysol, sy'n meithrin talent ac amrywiaeth pobl leol.

Mae gan bob cymuned y potensial i gyffroi ac ysbrydoli. Maent yn gweithio gyda chleientiaid a chymunedau i ddatgloi eu hasedau a'u cyfleoedd unigryw i ysgogi adfywio ac adferiad llwyddiannus.

Mae **Cymru Gynnes**, a'i is-gwmni, **Co–Cymru**, yn bwriadu cyflwyno ystod eang o fesurau, ym maes ynni cynaliadwy ac adfywio, i gefnogi polisïau'r Cynulliad.

Fel Cwmni Buddiannau Cymunedol , mae Cymru Gynnes yn dod ag ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y gymuned i gynaliadwyedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

Ffôn: 01639 825 960
admin@warmwales.org.uk
www.warmwales.org.uk/lang/cy/

Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Y Cyngor Cefn Gwlad yw cynghorwr statudol y Llywodraeth ar gynnal harddwch naturiol, bywyd gwyllt a'r cyfle i fwynhau Cymru a dyfroedd ei glannau.

Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn hyrwyddo amgylchedd a thirweddau Cymru a'i dyfroedd arfordirol fel ffynhonnell cyfoeth naturiol a diwylliannol, fel sylfaen i weithgarwch economaidd a chymdeithasol, ac fel man ar gyfer hamdden a chyfleoedd dysgu. Ein nod yw gwneud yr amgylchedd yn rhan bwysig o fywyd pawb yng Nghymru.

Ffôn**:** 0845 1306229
enquiries@ccw.gov.uk
www.ccgc.gov.uk/default.aspx?lang=cy-gb

Cylch – Rhwydwaith Ailgylchu Cymunedol Cymru

Rhwydwaith aelodaeth sy'n amcanu at hybu dulliau cynaliadwy o reoli gwastraff yng Nghymru drwy addysg a chamau gweithredu ymarferol. Mae'n cynnig cyngor ynghylch arfer gorau, cyllid a chyfleoedd i rwydweithio.

Ffôn: 029 2064 9750
mail@cylch.org.uk
www.cylch.org/cy

Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru

Mae Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru (DTA Cymru) yn fudiad aelodaeth annibynnol yn seiliedig ar ymarferwyr sy'n hyrwyddo gwaith y rhwydwaith cynyddol o ymddiriedolwyr datblygu yng Nghymru, ac yn eu cefnogi.

Mae DTA Cymru yn rhan o Gymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu y DU gyfan, y prif rwydwaith adfywio a mentrau cymdeithasol a symudiad sy'n tyfu'n gyflym o tua 500 o ymddiriedolaethau datblygu gyda mwy na 43 yng Nghymru, sydd ag asedau cymunedol gwerth £560 miliwn. Mae Ymddiriedolaethau Datblygu yn fudiadau sy'n eiddo i'r gymuned ac a arweinir gan y gymuned ac yn gweithredu fel mentrau cymunedol a chymdeithasol.

Mae Ymddiriedolaethau Datblygu yn datgloi potensial, datblygu sgiliau a chyflwyno atebion lleol ymarferol a chynaliadwy. Maent yn ymwneud â masnachu ac yn darparu gwasanaethau lleol, tyfu mentrau ac yn berchen ac yn rheoli asedau cymunedau gan fuddsoddi arian dros ben yn ôl i gymunedau.

Ffôn**:** 029 2019 0260

Cymru Gynhaliol

Mae Cymru Gynhaliol yn elusen annibynnol sy'n frwd dros ysgogi ffyrdd cynaliadwy o fyw ar lefel gymunedol, amcan y gellir ei gyflawni drwy feddwl o safbwynt byd-eang ond gan weithredu'n lleol. Mae'n ceisio ysgogi newid mewn ymddygiad, gan gynnig datrysiadau a chanllawiau ymarferol y gellir eu hefelychu i gynnal y newid hwnnw.

Gall Cymru Gynhaliol gynnig y gwasanaethau canlynol:

- Gwasanaeth ymgynghori a hyfforddiant mewn perthynas â materion ym maes datblygu cynaliadwy
- Nifer o gyhoeddiadau ar ystod eang o bynciau sy'n gysylltiedig â Datblygu Cynaliadwy
- Gwasanaeth rheoli digwyddiadau ar gyfer digwyddiadau ar gynaliadwyedd mewn cymunedau
- Cyngor a datrysiadau ymarferol o ran sut y gallwch fod yn fwy cynaliadwy bob dydd, gan gynnwys cynghorion da ynghylch gwastraff, cludiant, dŵr, bwyd, ynni a phrynu
- Mae Cymru Gynhaliol hefyd wedi sefydlu 'busnes cymunedol' o'r enw SUSSED sy'n gwmni manwerthu sy'n canolbwyntio ar 'gynhyrchion masnach-deg, ecogyfeillgar a Chymreig'.

Ffôn: 01656 783405
info@sustainablewales.org.uk
www.sustainablewales.org.uk/

Cymunedau yn Gyntaf

Cafodd y pecynnau Eco-Gyfarwyddyd Gweithredu Cymunedol eu datblygu gan bartneriaeth o fudiadau amgylcheddol a rhai cysylltiedig gyda mewnbwn gan Bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf ac awdurdodau lleol. Maent wedi'u cynhyrchu i gynnwys pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru.

Mae'r pecynnau yn darparu ystod o wybodaeth am yr hyn sy'n bosibl, pwy all eich helpu ac enghreifftiau o beth mae cymunedau neu grwpiau eraill wedi gwneud. Er enghraifft datblygu prosiect coetir cymunedol neu brosiect pysgota, sut i baratoi os ydych mewn perygl o gael llifogydd neu ofalu am fywyd gwyllt lleol. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth ar sut i ddechrau arni a rôl y system cynllunio defnydd tir.

Gallwch weld y pecynnau canllaw yma

http://wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/regeneration/communitiesfirst/?skip=1&lang=cy

Cynnal Cymru

Mae Cynnal Cymru yn gorff annibynnol, dielw sy'n hybu datblygu cynaliadwy ac yn darparu gwybodaeth ymarferol i helpu pobl i fyw'n gynaliadwy. Mae Cynnal Cymru'n cyflawni rôl allweddol o ran cyfleu gwybodaeth am ddatblygu cynaliadwy a hybu datblygu cynaliadwy ledled Cymru.

Gan ei fod yn gweithredu ar y ffin rhwng y llywodraeth, byd busnes, a'r gymdeithas sifil, mae Cynnal Cymru mewn safle unigryw sy'n golygu y gall gymhathu safbwyntiau pob grŵp ac ysgogi proses gyfathrebu rhyngddynt a fydd yn arwain at weithredu cadarnhaol er budd datblygu cynaliadwy. Rhowch olwg ar yr Arweiniad i Fyw'n Gynaliadwy a chofrestrwch i dderbyn yr E-Gylchlythyr - GloballySusDCymru er mwyn cael y cynghorion da i gymunedau.

Ffôn: 02920 19 20 21
enquiries@sustainwales.com
www.cynnalcymru.com/cymraeg

Cyswllt Cymunedau Cymru Affrica

Nid 'mater i wledydd unigol' yw'r Newid yn yr Hinsawdd – mae'n rhaid wrth ymdrech byd-eang er mwyn gostwng allyriadau. Mae gan y trydydd sector yng Nghymru eisoes brofiad unigryw o helpu gwledydd yn Affrica Is-Sahara sydd eisoes yn ymdrin â chanlyniadau newid yn yr hinsawdd. Yn gynyddol, mae'r rhaglen yn gweld cysylltiadau cymunedol yn gweithio gyda'u partneriaid i ddangos i bobl ledled Cymru effaith newid yn yr hinsawdd ar rai o gymunedau tlotaf ar draws Affrica Is-Sahara.

Mae'r prosiect Cyswllt Cymunedau Cymru Affrica yn datblygu rhagoriaeth mewn cysylltiadau rhwng cymunedau yng Nghymru ac Affrica i greu heddwch, ffyniant a dealltwriaeth drwy gyd-ddatblygu. Gall Cyswllt Cymunedau Cymru Affrica gynnig cyngor a chymorth ynghylch sut i sefydlu cyswllt cymunedol rhwng Cymru ac Affrica, gan gynnwys cynllun grantiau i roi cymorth i grwpiau wneud hynny.

Dolen datblygu www.walesafrica.org/funding_apply_for_a_grant.html ,amddiffyn coedwigoedd www.walesafrica.org/funding_forestry_grants.html, datblygu prosiectau ynni glân www.walesafrica.org/funding_clean_energy_grant.html yn Affrica Is-Sahara.

Ffôn: 0800 2888329
walesafrica@wcva.org.uk
www.walesafrica.org/

DIRECTGOV

Gwefan swyddogol Llywodraeth y DU i ddinasyddion. Mynediad rhwydd at y gwasanaethau cyhoeddus yr ydych yn eu defnyddio ac at yr wybodaeth y mae arnoch ei hangen, y cwbl yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth y DU. Gallwch ddod o hyd i ffyrdd cyflym a rhwydd o arbed arian, cyfrifo eich ôl troed carbon a chael cynghorion syml ynghylch ffordd wyrddach o fyw.

www.direct.gov.uk/cy/Environmentandgreenerliving/Thewiderenvironment/Climatechange/index.htm

Eco Dyfi

Ecodyfi yw'r mudiad adfywio lleol ar gyfer Dyffryn Dyfi, Canolbarth Cymru.

Ffôn: 01654 703965
enquiries@ecodyfi.org.uk
www.ecodyfi.org.uk/index.htm

Energyshare

Mae ynni yn effeithio ar fywydau pawb, a'n pocedi, ac mae'r ffordd rydym yn meddwl am ynni yma yn y DU yn newid yn gyflym. Ar hyd a lled y wlad mae cannoedd o bobl eisoes yn dod ynghyd a sefydlu prosiectau ynni adnewyddadwy. Maent yn profi bod ffordd arall o wneud pethau. Ond ar yr un pryd dim ond 2% o bobl sydd ar dollau gwyrdd.

Maent wedi dysgu gan brosiectau eraill (fel River Cottage, Hugh's Fish Fight, Chicken Out a Landshare) pan ddowch â phobl, cymunedau, mudiadau a'r cyfryngau yngyd, gall rhywbeth MAWR ddigwydd.

Felly mae energy**share** yn dod â phobl ynghyd wyneb yn wyneb ac ar-lein i droi'r system ben i wared. Mae'n rhoi cyfle i bawb gael ffynonellau defnyddio a (pan fyddwch yn barod…) hyd yn oed creu 100% o ynni adnewyddadwy o Brydain eich hun – ac arbed arian wrth wneud hynny.

www.energyshare.com/

European Commission Climate Action

Mae'r wefan hon yn darparu gwybodaeth ynghylch sut i fod yn rhan o leihau effaith gyfunol Ewrop ar yr amgylchedd, gan gynnwys adrannau ar 'What's happening near you' a 'What's already been tried and tested'.

Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am yr hyn y gall yr UE ei gynnig o ran gwahanol fathau o gyllid ar gyfer prosiectau amgylcheddol a phrosiectau sy'n gysylltiedig ag ynni – yn bennaf drwy "alwadau am gynigion" a thendrau cyhoeddus ar gyfer busnesau bychain, Cyrff Anllywodraethol ac ymchwil.

Mae gwybodaeth ar gael hefyd am bolisi'r UE ar ynni a'r newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys targedau newydd uchelgeisiol ar gyfer 2020.

http://ec.europa.eu/climateaction/index_en.htm

Every Action Counts

Mae gan wefan Every Action Counts amrywiaeth o ddulliau a chyngor i helpu mudiadau cymunedol leihau eu hallyriadau carbon eu hunain ac annog grwpiau ac unigolion eraill yn y gymdogaeth i wneud yr un peth (ond nodwch fod y rhaglen bellach wedi cau ac nad yw bellach yn darparu cymorth uniongyrchol)

www.justact.org.uk/

Global Action Plan

Prif fudiad newid ymddygiad amgylcheddol y DU gyda thros 18 mlynedd o brofiad mewn cyfathrebu am gynaliadwyedd, ymgysylltu â staff a hyfforddiant. Maent yn gweithio gyda busnesau, cymunedau ac ysgolion a'u rhaglenni hwy yw'r unig rai yn y DU i gael eu cefnogi gan Raglen Amgylcheddol y Cenhedloedd Unedig.

Ffôn: 020 7420 4444
www.globalactionplan.org.uk

Greenpeace (Gwefan yn y DU)

Mae Greenpeace yn fudiad ymgyrchu annibynnol byd-eang sy'n gweithredu i newid agweddau ac ymddygiad, i ddiogelu a gwarchod yr amgylchedd ac i hybu heddwch. Mae'r wefan yn cynnwys llyfryn y gellir ei lwytho oddi ar y we – How to save the Climate – sy'n llawn cynghorion.

Ffôn: 020 7865 8100
info@uk.greenpeace.org
www.greenpeace.org.uk/

Groundwork Cymru

Elusen yw Groundwork Cymru sy'n helpu pobl a mudiadau i wneud newidiadau er mwyn creu cymdogaethau gwell, meithrin sgiliau a rhagolygon gwaith, a byw a gweithio mewn ffordd fwy gwyrdd.

Mae'n rhan o Groundwork yng Nghymru, rhwydwaith adfywio amgylcheddol lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sy'n meithrin cymunedau cynaliadwy ledled Cymru.

www.wales.groundwork.org.uk/

Gwasanaeth Ynni yn y Cartref

Mae Gwasanaeth Ynni yn y Cartref yn helpu pob math o bobl i dorri carbon a thanwydd. Mae'n gweithio yn nhrefi a chymoedd Cymru a Lloegr o amgylch Bishop's Castle, Trefyclo a Llanandras, Trefaldwyn a'r Drenewydd. Mae'n hyfforddi gwirfoddolwyr o'r ardaloedd hyn i gynnal ymweliadau a chasglu data ar eich defnydd o ynni. Gallwch hefyd ddewis cwblhau ffurflen casglu data a'i chyflwyno iddynt eich hun. Bydd y Tîm Ynni, dan arweiniad Swyddog Ynni proffesiynol, wedyn yn rhoi adroddiad arolwg ynni am ddim i chi gan roi'r canlynol i chi:

- Argymhellion ar gyfer mesurau arbed ynni y gallwch eu cyflawni gartref ac ar y ffordd – yn cynnwys awgrymiadau arbed ynni heb gost/ cost isel
- Cyngor annibynnol technegol ar grantiau ar inswleiddio, ffynonellau adnewyddadwy, trafnidiaeth effaith isel ac ati.
- Cyfeirio at ffynonellau eraill o wybodaeth.
- Cefnogaeth barhaus i weithredu.

Ffôn: 01588 630683
info@h-e-s.org
www.h-e-s.org/page/home/

Locality

Mae Locality yn rhwydwaith cenedlaethol blaenllaw o aneddiadau, ymddiriedolaethau datblygu, canolfannau gweithredu cymdeithasol a mentrau cymunedol. Mae'n credu bod pob cymuned yn lle llawn posibiliadau. Mae'n helpu pobl i sefydlu mudiadau sy'n eiddo i bobl leol ac a arweinir ganddynt. Mae'n cefnogi mudiadau sy'n bodoli eisoes i weithio'n effeithiol drwy gyfnewid gwybodaeth ac arfer da ar berchen asedau cymunedol, mentrau cymunedol, cydweithio, comisiynu cefnogaeth, gweithredu cymdeithasol, llais cymunedol, hawliau cymunedol ac adfywio rhwng cymheiriaid.

Mae Locality hefyd yn gweithio i ddylanwadu ar y llywodraeth ac eraill ar lefel genedlaethol a lleol i feithrin cymorth a buddsoddiad ar gyfer y symudiad.

Ffôn: 0845 458 8336
info@locality.org.uk
http://locality.org.uk

Llinell Gymorth Cartrefi Cynnes

Mae *The Little Book of Energy* wedi'i lansio i roi awgrymiadau ymarferol a chyngor i bobl – yn enwedig y rheini sydd fwyaf mewn perygl o dlodi tanwydd – a all eu helpu i leihau eu biliau ynni.

Bwriad y llyfr *The Little Book of Energy* yw helpu pobl i ddefnyddio ynni yn fwy effeithlon o gwmpas y cartref er mwyn iddynt ddefnyddio llai ac arbed mwy. A gellir cyflawni hyn drwy gymryd camau syml megis sicrhau nad yw rheiddiaduron yn cael eu

cuddio gan ddodrefn neu gan lenni a pheidio â berwi mwy o ddŵr nag yr ydych ei angen.

Mae'r llyfr hefyd yn dwyn sylw at nifer o wasanaethau cymorth sydd ar gael gan y Llinell Gymorth Cartrefi Cynnes sy'n cynnwys:

- Cyngor am dariffau cymdeithasol – arbediad 20 y cant yn gyffredinol
- Y Gofrestr Gwasanaeth Blaenoriaeth sy'n darparu gwasanaethau ychwanegol i bobl oedrannus neu anabl gan gynnwys biliau mewn testun mawr neu Braille, cyfrineiriau diogelwch ac archwiliad diogelwch nwy blynyddol.
- Grantiau ar gyfer inswleiddio'r cartref am ddim
- Opsiynau talu hyblyg ar gyfer cwsmeriaid sydd mewn dyled tanwydd
- Archwiliadau hawl i gael budd-daliadau

Gellir cael copi o *The Little Book* drwy ffonio Llinell Gymorth Cartrefi Cynnes ar 0800 33 66 99.

www.homeheathelpline.org.uk/

Llywodraeth Cymru: Helpu Cymru i Leihau ei Hôl Troed Carbon

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod newid yn yr hinsawdd yn un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu'r byd heddiw ac mae'n benderfynol o wneud ei ran er mwyn mynd i'r afael â'r her. Mae'r wefan hon, sydd wedi'i neilltuo'n benodol i'r pwnc, wedi'i rhannu'n adrannau sydd wedi'u bwriadu ar gyfer yr unigolyn, pobl ifanc, cymunedau a busnesau. Mae adnoddau sy'n arbennig o ddefnyddiol yn cynnwys:

- Pecyn Gweithredu yn y Gymuned; peth wmbredd o wybodaeth wedi'i rhannu'n ddarnau thematig byr am yr hyn y gallwch chi ei wneud, prosiectau llwyddiannus a ble gallwch gael cymorth gyda'ch prosiect cymunedol.
- Mesurwch eich ôl troed; Defnyddiwch y gyfrifiannell ôl troed carbon i gyfrifo eich ôl troed carbon chi fel unigolyn. Fe gewch hefyd eich cynllun gweithredu chi eich hun a fydd yn cynnwys cyngor ynghylch sut y gallwch helpu i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a byddwch yn arbed arian ar eich biliau hefyd.

Uchafbwyntiau Gweithgareddau'r Trydydd Sector: Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd
Mae'n cynnwys:

- Amlinelliad o rôl y trydydd sector wrth gefnogi gweithredu i leihau allyriadau ac addasu i newid yn yr hinsawdd;
- Trosolwg o dargedau lleihau allyriadau a sut all mudiadau trydydd sector a mudiadau cymunedol gefnogi'r broses o leihau allyriadau;
- Trosolwg o sut y disgwylir i'r sector gefnogi'r broses o addasu Cymru i hinsawdd sy'n newid.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu ystod o strategaethau, canllawiau a dogfennau eraill sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd. Cliciwch yma.
www.walescarbonfootprint.gov.uk/?skip=1&lang=cy

NEA Cymru

NEA Cymru yw cangen Gymreig NEA (National Energy Action); elusen tlodi tanwydd fwyaf blaenllaw'r DU. Yng Nghymru, fel yng ngweddill y DU, mae'n ymgyrchu i roi terfyn ar dlodi tanwydd drwy gynhesrwydd fforddiadwy i bawb. Mae'r wefan yn cynnwys gwybodaeth am y cyllid sydd ar gael, canllawiau ynghylch gwneud gwelliannau o safbwynt effeithlonrwydd ynni i adeiladau cymunedol a llu o gynghorion ymarferol sy'n canolbwyntio ar effeithlonrwydd ynni.

Ffôn: 07971 005578
www.nea.org.uk/welcome-to-nea/

Rhwydwaith Allgymorth a Gwybodaeth am yr Hinsawdd (COIN)

Mae Rhwydwaith Allgymorth a Gwybodaeth am yr Hinsawdd yn elusen gofrestredig yn y DU a sefydlwyd yn 2004 sy'n ymrwymo ei hun i helpu pobl i gyfathrebu ar newid yn yr hinsawdd. Ei nod yw hwyluso'r broses lle mae pobl: yn goresgyn gwadu newid yn yr

hinsawdd; gweithredu gyda'i gilydd i dorri allyriadau nwyon tŷ gwydr; a chynnig dilysrwydd democrataidd i arweinwyr etholedig i drafod yn llwyddiannus ar gyfer rheoleiddio cryf ar lefel genedlaethol a rhyngwladol. Mae COIN wedi ymrwymo i dreialu dulliau newydd o gyfathrebu rhwng cymheiriaid a gweithredu ac adrodd ar yr hyn a ddysgwn. Mae'n gobeithio, yn y ffordd hon, i gynorthwyo'r symudiad newid hinsawdd ehangach i fabwysiadau strategaethau effeithiol sy'n deillio o ymchwil sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Ffôn**:** 01865 403334
info@coinet.org.uk
http://coinet.org.uk/
www.dtawales.org.uk/cyd-cymru/i/154/

Sustrans Cymru

Mae Sustrans yn gwneud dewisiadau teithio doethach yn bosibl, yn ddeniadol ac yn anochel. Mae'n elusen flaenllaw yn y DU sy'n galluogi pobl i deithio ar droed, ar y beic neu ar drafnidiaeth gyhoeddus am fwy o'r teithiau a wnawn bob dydd. Mae'n gweithio gyda theuluoedd, cymunedau, llunwyr polisïau a mudiadau partner fel y gall pobl ddewis teithiau iachach, glanach a rhatach, gyda lleoedd gwell i symud drwyddynt a byw ynddynt.

Ffôn: 0845 113 00 65
info@sustrans.org.uk
www.sustrans.org.uk/

The Energy Advice Line

Mae'r wefan hon yn cynnig gwasanaeth cyngor ynghylch ynni sy'n rhad ac am ddim ac yn ddiduedd yn ogystal â chynghorion da ynghylch arbed ynni. Mae newid cyflenwr trydan neu nwy'r busnes yn ffordd rwydd o ostwng eich gorbenion ac arbed arian. Gyda Energy Advice Line gallwch weld a gwerthuso prisiau gan gyflenwyr nwy a thrydan ar gyfer busnesau mewn ffordd syml a chyflym. Mae hefyd yn rhoi sgôr ar ffurf sêr i amodau a thelerau'r cyflenwyr yn seiliedig ar feini prawf penodedig fel eich bod yn cymharu'r "print mân" yn y contractau mewn fformat byr sy'n ei wneud yn hawdd i'w ddeall. O ganlyniad fe gewch ddealltwriaeth dda am yr hyn y mae'r cyflenwr trydan neu nwy ar gyfer busnesau'n ei gynnig ac fe allwch wneud penderfyniad deallus.

Ffôn: 0800 915 1800
www.energyadviceline.org.uk/

UKCIP

Mae UKCIP yn helpu mudiadau i addasu'r ffordd maent yn gweithio er mwyn ymdrin ag effeithiau hinsawdd sy'n newid. Ers 1997, maent wedi bod yn darparu adnoddau, am ddim, i helpu mudiadau ddeall beth allai newidiadau i'r hinsawdd olygu iddyn nhw, yn ogystal â chynnig arweiniad ar sut i baratoi. Mae UKCIP yn gweithio gyda rhanddeiliaid yn y sector cyhoeddus, preifat a'r sector gwirfoddol i ddatblygu adnoddau all ganiatau addasu cadarn sy'n seiliedig ar dystiolaeth i ddigwydd.

Ffôn**:** 01865 285717
enquiries@ukcip.org.uk
www.ukcip.org.uk/

Utility Aid

Sefydlwyd Utility Aid yn 2002, ac mae wedi helpu cannoedd o fudiadau elusennol i wneud gwell defnydd o'u cyllidebau drwy gynnig cyngor syml, clir a diduedd ar sut i arbed arian a gwneud penderfyniadau gwell ar brynu ynni. Mae gan eu staff nifer o flynyddoedd o brofiad yn y diwydiant ac mae'n gweithio mewn partneriaeth â chyflenwyr ynni mawr i sicrhau bod eich profiad mor bleserus â phosibl!

Ffôn**:** 0808 1788 170
enquiries@utility-aid.co.uk
www.utility-aid.co.uk/index.html

WRAP Cymru

Mae WRAP Cymru yn gweithio mewn partneriaeth i wneud y canlynol:

- Datblygu seilwaith Cymru ar gyfer ailgylchu ac ailbrosesu ei gwastraff
- Gweithio gyda gwneuthurwyr i helpu i gynyddu cynnwys wedi'i ailgylchu yn eu cynnyrch
- Lleihau pecynu a gwastraff bwyd, a charbon cysylltiedig, drwy Ymrwymiad Courtauld
- Lleihau gwastraff adeiladu drwy Haneru Gwastraff i'w Dirlenwi
- Cynyddu dargyfeirio gwastraff bioddiraddadwy i gynnyrch o ansawdd fel compost a'r broses dreulio a chreu galw ar gyfer y cynnyrch hwn.

Switsfwrdd: 01295 819 900
Llinell Gymorth: 0808 100 2040
www.wrap.org.uk/index.html

Y Cymoedd Gwyrdd

Nod y Cymoedd Gwyrdd yw creu cymunedau sy'n niwtral o ran carbon, yn ariannol ddiogel ac yn gynaliadwy. Eu prif ffordd o gyflawni hyn yw helpu cymunedau i sylweddoli manteision Tariff Cyflenwi Trydan drwy gynhyrchiant micro-hydro. Mae Tariff Cyflenwi Trydan yn cynnig ffrwd refeniw sy'n gysylltiedig â mynegai yn warantedig am 20 mlynedd ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy. Maent yn canolbwyntio ar bŵer hydro gan ei fod yn dechnoleg ddibynadwy sydd wedi'i brofi, ac sy'n cael effaith fach ar yr amgylcheddol, nid yw'n codi unrhyw rwystrau cynllunio mawr, ac mae'n addas ar gyfer tirwedd a hinsawdd Cymru.

Mae'r Cymoedd Gwyrdd hefyd yn rhoi cyngor a chymorth ar ymgysylltu â'r gymuned, cefnogaeth benodol i alluogi coetiroedd lleol i gael eu rheoli fel ffynhonnell o danwydd coed, a'r gallu i rannu profiad cymunedau eraill gyda mentrau lleihau carbon eraill.

Ffôn: 07969 137719
info@thegreenvalleys.org
http://thegreenvalleys.org/

Y Ddraig Werdd

Mae angen yn awr i bob mudiad ofalu am yr amgylchedd drwy weithredoedd eu busnes ac mae'n ofynnol erbyn hyn i nifer ohonynt brofi'u rhinweddau amgylcheddol.

Mae'r Ddraig Werdd yn System Rheolaeth Amgylcheddol sydd wedi'i hachredu'n swyddogol ac sy'n helpu mudiadau i gyflawni'r uchod.
Mae'r manteision eraill yn cynnwys:

- arbedion ariannol
- cydymffurfio â deddfwriaeth
- cynnydd mewn cystadleurwydd
- gwell perfformiad amgylcheddol

Caiff y Ddraig Werdd ei rhedeg gan Groundwork Cymru, elusen sy'n helpu pobl a mudiadau i wneud newidiadau er mwyn creu cymdogaethau gwell, meithrin sgiliau a rhagolygon gwaith, a byw a gweithio mewn ffordd fwy gwyrdd.

www.wales.groundwork.org.uk/

Y Ganolfan Technoleg Amgen (CAT)

Mae'r Ganolfan Technoleg Amgen yn elusen amgylcheddol sy'n amcanu at 'ysbrydoli, hysbysu a galluogi pobl' i fyw mewn modd mwy cynaliadwy. Mae CAT yn cynnig cyhoeddiadau y gellir eu harchebu drwy'r post, gwasanaeth ymgynghori a chyrsiau preswyl.

Mae'r gwasanaeth gwybodaeth am ddim sydd gan CAT yn cynnig cyngor a gwybodaeth ynghylch pob agwedd ar fyw mewn modd cynaliadwy a all eich helpu i ddewis pa fesurau yw'r rhai mwyaf defnyddiol i chi eu cymryd er mwyn lleihau eich effaith amgylcheddol a lleihau eich ôl troed carbon (ac arbed arian hefyd!). Mae ystod o daflenni gwybodaeth ar gael hefyd i'w llwytho oddi ar y we ar bynciau megis Effeithlonrwydd Ynni, Ynni Adnewyddadwy a Chludiant a Theithio.

Ffôn: 01654 705950
www.cat.org.uk/index.tmpl?refer=index&init=1

Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni

Mae'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni yn fudiad annibynnol dielw yn y DU sy'n canolbwyntio ar hyrwyddo camau gweithredu sy'n arwain at leihau allyriadau carbon deuocsid. Caiff ei gyllido gan lywodraeth y DU, llywodraethau datganoledig a'r sector preifat ac mae'n ffynhonnell o gyngor a gwybodaeth am ddim ar gyfer pobl ledled y DU sy'n chwilio am ffyrdd o arbed ynni, arbed dŵr a lleihau gwastraff.

Llinell cymorth a chyngor: 0800 512 012
Ymholiadau cyffredinol: 020 7222 0101
www.energysavingtrust.org.uk/wales

Yr Ymddiriedolaeth Garbon

Mae'r Ymddiriedolaeth Garbon yn rhan o raglen y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd. Mae'n ysgogi ac yn hybu datblygiad technolegau carbon-isel. Mae'n cynnig cymorth i fusnesau a'r sector cyhoeddus yn y DU drwy gyllid, drwy roi cymorth i arloesi technolegol a thrwy ysgogi arferion gweithio effeithlon. Er eu bod wedi'u bwriadu ar gyfer y sector preifat a'r sector cyhoeddus, gall cyrff yn y trydydd sector hefyd ddefnyddio'r llu o offer, gwasanaethau a mentrau a gynigir gan yr Ymddiriedolaeth Garbon (gwiriwch gyda hwy'n uniongyrchol os ydych yn ansicr).

Mae adrannau defnyddiol ar y wefan yn cynnwys:

Gwybodaeth am newid yn yr hinsawdd

Cyngor i'ch mudiad ar sut i arbed carbon

Posteri a sticeri i godi ymwybyddiaeth gweithwyr

Benthyciadau ar gyfer offer arbed ynni

Lwfansau Cyfalaf Uwch: gostyngiad treth pan eich bod yn buddsoddi mewn offer sy'n arbed ynni

Ôl-troed Carbon – canfod maint allyriadau eich mudiad neu sefydliad

Ffôn: 0800 085 2005
customercentre@carbontrust.co.uk
www.carbontrust.co.uk/Pages/Default.aspx

Ymwadiad
Dim ond fel canllaw y darperir yr wybodaeth yn y daflen hon. Ni ddylech ei defnyddio yn lle cyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb dros golled a geir o ganlyniad i unrhyw berson sy'n gweithredu neu'n gwrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful
Canolfan Gweithredu Gwirfoddol, 89-90 Stryd Fawr, Merthyr Tudful, CF47 8UH
Elusen Gofrestredig *1060242*

Ffôn: 01685 353900 enquiries@vamt.net
Ffacs: 01685 353909 www.vamt.net

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:27/02/2012

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru WCVA Wales Council for Voluntary Action
Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk